# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **20 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Kirsty Williams AC, Y Gweinidog Addysg** |

**Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae rheoleiddio nifer o broffesiynau sydd o fewn cwmpas yr Offeryn Statudol wedi'i ddatganoli drwy setliad datganoli Cymru. Mae Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau a amlinellwyd yn adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i wneud darpariaethau a allai gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.

**Pwrpas y diwygiadau**
Pwrpas yr OS hwn yw cywiro diffygion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Diffygion sy'n codi o'r trefniadau cyfatebol rhwng y Deyrnas Unedig a gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yw'r rhain yn bennaf, na fydd yn weithredol nac yn briodol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, ac sy'n nodi effaith y diwygiad hwn, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/zdDtZ5ZV

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Nid oes gwahaniaeth rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi i'w gywiro. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn

yr achos hwn. Y dyddiad gosod arfaethedig ar gyfer yr OS yw 19 Rhagfyr 2018, a bydd y diffygion yn cael eu cywiro drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.